**BWRDD PENSIWN 23-04-24**

**Yn bresennol**:

Eifion Jones (Cadeirydd) ac Osian Richards (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD**

Cyng. Stephen Churchman (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Beca Roberts (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Tony Deakin (Cynrychiolydd Aelodau)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29-02-24 fel rhai cywir.

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 19-03-2024

**6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn cynrychioli'r Gronfa yn holl gyfarfodydd y bartneriaeth, a bod y cydweithio yn parhau i fynd o nerth i nerth ar faterion megis ymateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pleidleisio ac ymgysylltu ac yn gyffredinol rhannu ymarfer da ar draws y cronfeydd. Nodwyd bod 83% o Gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda PPC erbyn hyn.

Tynnwyd sylw at y ddwy gronfa ecwiti sydd wedi bod yn weithredol ers dros 5 mlynedd bellach ac felly'n gyfnod rhesymol i asesu'r perfformiad. Cyfeiriwyd at berfformiad Cronfa Twf Byd Eang sydd â thri phrif reolwr sy'n gweithredu arddull gwahanol iawn i'w gilydd - Baillie Gifford, Pzena a Veritas. Amlygwyd wrth yr Aelodau, bod y gronfa yma, ers ei sefydlu wedi disgyn tu ôl i'r meincnod a'r Bartneriaeth felly yn edrych ar opsiynau i ail ddatblygu'r gronfa yma.

Yng nghyd-destun Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang adroddwyd bod y gronfa yn cael ei rheoli drwy arddull dull cyfunol gydag wyth rheolwr gwahanol. Er na fydd pob rheolwr yn perfformio yn dda ar yr un pryd, bod y dull amrywiol yn golygu sefyllfa sefydlog a'r gronfa yn perfformio yn uwch na'r meincnod dros y tymor hir.

Cyfeiriwyd at berfformiad y Gronfa Ecwiti Cynaliadwy a gafodd ei sefydlu yn ddiweddar gyda Gwynedd yn buddsoddi £270 miliwn ynddo; gyda ffocws glir ar yr hinsawdd ac ar dargedau Sero Net. Amlygwyd bod y perfformiad wedi bod yn is na'r meincnod ers y dechrau a hynny oherwydd tan bwysau (underweight) stoc y sector ynni sydd wedi perfformio yn dda, arwahan i'r chwarter olaf. Nodwyd mai dyddiau cynnar yw hi i'r gronfa yma ac y bydd y perfformiad yn cael ei fonitro yn fanwl.

Yng nghyd-destun Cronfeydd Incwm Sefydlog, cyfeiriwyd ar y Gronfa Gredyd Aml-ased, Enillion bond absoliwt, a Chredyd Byd Eang adroddwyd bod rhain yn hanesyddol wedi bod yn tanberfformio a hynny oherwydd ansefydlogrwydd yn y farchnad gyda rhyfel Wcráin, cyfyngiadau cofid Tsiena, ac effaith codiadau llog cyflym a chwyddiant uchel. Ategwyd, er pryderon, bod yr amodau yn dechrau gwella a bod cynnydd i'w weld ym mherfformiad y tri mis diwethaf. Gyda'r ymrwymiad yn un tymor hir, bod parodrwydd i barhau gyda'r buddsoddiadau yn y gobaith y bydd yr amodau yn parhau i wella.

Adroddwyd bod y Gronfa Marchnadoedd Datblygol, a lansiwyd Hydref 2021, gyda chwe rheolwr buddsoddi sylfaenol gan gynnwys Bin Yuan arbenigwr Tsiena. Nodwyd bod yr amodau eto yn heriol iawn mewn nifer o wledydd a sectorau, ond y gobaith yw bydd gwellhad yn amodau'r farchnad a gwell dychweliadau.

Cyfeiriwyd at ddatblygiadau diweddar y PPC gan dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes marchnadoedd preifat gyda chwmnïau wedi eu hapwyntio i redeg y mandadau dyled preifat, isadeiledd ac ecwiti preifat a dechrau buddsoddi yn y cronfeydd hyn. Nodwyd bod Cronfa Gwynedd yn gadael i'r buddsoddiadau isadeiledd ac ecwiti preifat aeddfedu yn naturiol ac yna buddsoddi yn raddol gyda'r pwl. Ategwyd bod y broses caffael ar gyfer Rheolwr Eiddo yn datblygu yn dda gyda gwahoddiad i dendro wedi ei ryddhau ym mis Ionawr a'r cynigion bellach yn cael eu gwerthuso - bydd y canlyniad yn dod i'r amlwg dros yr Haf. Bydd penodiad Rheolwr Eiddo yn cynnig opsiynau eiddo ehangach i'r Gronfa megis eiddo byd eang ac effaith (impact)

Cyfeiriwyd at ddiweddariad penodi Gweithredwr gyda'r cytundeb presennol yn dod i ben Rhagfyr 2024. Adroddwyd bod proses dendro agored wedi ei chynnal ynghyd â phroses werthuso gydag adroddiad yn argymell y cynigydd a ffafrir wedi ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r wyth awdurdod cyfansoddiadol - unwaith bydd materion cyfreithiol wedi eu cwblhau, bydd manylion y cwmni llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi yn swyddogol yn yr wythnosau nesaf.

Tynnwyd sylw at ddatblygiad yn y maes 'pleidleisio ac ymgysylltu' ac at y gwaith da mae Robeco yn ei wneud yn y maes yma gyda diweddariadau yn cael i'w cyflwyno i'r Pwyllgor a'r Cydbwyllgor yn chwarterol. Er hynny, amlygwyd, bod sefyllfa wedi amlygu ei hun, pan fydd ymgysylltu gwael yn digwydd, mai anodd yw ymateb a gweithredu ar y sefyllfa. O ganlyniad, nodwyd bod PPC wrthi'n llunio polisi uwch gyfeirio er mwyn mynd i'r afael â hyn, sydd yn cael ei weld fel cam pwysig ymlaen.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Ystyriwyd bod y perfformiad yn dda ar y cyfan a bod y canran o 83%, sydd eisoes wedi ei fuddsoddi gyda'r Bartneriaeth, yn uchel iawn o gymharu ag eraill

- Byddai cynnwys canran a symiau'r buddsoddiadau ymhob cronfa yn fanteisiol i'r dyfodol

Mewn ymateb i ddiweddariad penodiad y Gweithredwr newydd, nodwyd yr angen i gronfa Bensiwn Gwynedd, fel un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddiadol fod yn barod i gefnogi'r cytundeb newydd. Ategodd y Rheolwr Buddsoddi bydd llawer yn dibynnu ar ddull y gweithredwr o weithredu ac ymateb i newidiadau gydag amryw o faterion angen eu sortio. Nodwyd y bydd y cyfnod yn cael ei weld fel cyfnod newydd gyda pharodrwydd i gydweithio a'r bwriad o weld swydd rhan amser yn cael ei chreu i gefnogi gwaith y Bartneriaeth.

Mewn ymateb i sefydlu polisi uwch gyfeirio sydd yn mynd i'r afael ag ymgysylltu gwael, cefnogwyd yr angen am ddull o ddelio gyda'r pryderon / materion cynhennus yn enwedig os yw penderfyniadau'r Darparwr yn effeithio ar enw da'r Bartneriaeth. Nodwyd y bydd hyn eto yn creu gwaith ychwanegol i swyddogion a gwnaed cais i sicrhau cefnogaeth.

Mewn ymateb i sylw bod yr enillion a'r perfformiad yn dda ond nad oedd y perfformiad yn erbyn y meincnod gystal â'r disgwyl, nodwyd, e.e, yn y cronfeydd ecwiti bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar opsiynau amgen ac yn y cronfeydd sefydlog bod yr amodau diweddar wedi bod yn heriol, ond bod rheolwyr yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd a'r penderfyniad wedi ei wneud i ddyfalbarhau. Mewn ymateb i gwestiwn atodol bod y sefyllfa / ffactorau / amgylchiadau heriol yn effeithio pawb, nododd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod rheolwyr buddsoddi gyda gwahanol arddull o weithio, amrywiaethau stoc i'w hystyried a gosodiad portfolio amrywiol - rhain yn elfennau all greu effaith. Ategwyd, gyda'r buddsoddiadau tymor hir hyn, ei fod yn parhau yn hyderus ac y bydd gwelliant yn debygol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 7. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariad ar amrywiol brosiectau.

Cyfeiriwyd at berfformiad dyletswyddau craidd y gwasanaeth ar gyfer 2023/24 i gymharu â 2022/23 gan nodi bod y perfformiad wedi gwella ar bob llinell gan amlygu gwelliant sylweddol mewn 'nifer y diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gymerir i anfon llythyr dyfynbris yn rhoi manylion trosglwyddiad allan'. Adroddwyd bod staff ychwanegol wedi cael eu penodi i ymateb i'r galw yn y gwasanaeth yma ac o ganlyniad y perfformiad wedi gwella e.e., er bod nifer achosion wedi cynyddu o 218 i 745 bod y nifer diwrnodau 'ymateb' wedi gostwng o 17.11 i 13.26. Y gwaith yma hefyd wedi sicrhau bod cofnodion o'r bobl hynny sydd yn gadael yn gywir a chyflawn ar gyfer y dashbwrdd.

Tynnwyd sylw at yr arolwg boddhad Gwasanaeth sydd yn cael ei anfon at Aelodau ar ddiwedd pob proses i gasglu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd. Adroddwyd bod 162 o aelodau wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn ystod 2023/24 gyda'r canlyniad yn galonogol iawn (99% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu cytuno bod yr ansawdd o safon uchel).

Cyfeiriwyd at lwyddiant a phoblogrwydd y wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan amlygu bod nifer o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol ac oddeutu 20,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yma. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn cysylltu gyda

chyflogwyr iddynt annog staff i drosglwyddo bob yn dipyn fel bod modd delio gydag unrhyw sefyllfa all godi - y gobaith yw cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Haf 2024.

Mynegwyd bod fersiwn newydd o safle we hunan wasanaeth wedi cael ei lansio 10/04/2024. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu gyda chyflogwyr i ofyn iddynt annog staff i drosglwyddo bob yn dipyn i'r safle newydd fel bod modd delio gydag unrhyw sefyllfa all godi - y gobaith yw cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Haf 2024.

Wrth drafod Y Rheoleiddiwr Pensiynau - Mesur Data atgoffwyd yr Aelodau bod cwmni Aquila Heywood wedi cael eu comisiynu yn y gorffennol i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Bellach, nodwyd bod meddalwedd bellach ar gael i redeg yr adroddiad hwn yn fewnol. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cael ei rannu i ddwy ran (data Cyffredin a Data Penodol i'r Cynllun). Cyfeiriwyd at un categori nad oedd wedi cyrraedd y meincnod (cyfeiriadau) a bod hyn yn ymwneud a phobl sydd wedi symud i fyw a heb roi gwybod i'r gwasanaeth o'u cyfeiriad newydd. Erbyn hyn, mae proses o olrhain y cyfeiriadau gyda Heywood, a'r gobaith yw gweld gwelliant i'r dyfodol yn y categori yma.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y gwaith ar cynnydd i'w groesawu
- Er y pwysau ychwanegol, yn falch o weld staff yn barod i gymryd dyletswyddau ychwanegol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gosod targed 'dymunol' yn hytrach na chanolbwyntio ar y gwelliant, nodwyd mai gwelliannau parhaus sydd yn cael eu hystyried yn hytrach na gosod targedau. Ategwyd bod hwn yn batrwm ar draws y Cyngor i geisio osgoi sefyllfa ffug ac mai gosod cyfeiriad yw'r cymhelliant. Nodwyd hefyd, ar gyfer 2024/25 bod galw i adrodd ar berfformiad yn erbyn cronfeydd eraill (Cymru) ac felly diddorol fydd gweld sut bydd perfformiadau yn cymharu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 8. COD YMARFER CYFFREDINOL Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlygu bod cod ymarfer cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi dod i rym 28 Mawrth 2024 yn cynnwys gofynion llywodraethu newydd, disgwyliadau ar sut y dylid rheoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol ynghyd ar arferion a'r gweithdrefnau a ddylai fod yn eu lle.

Cyfeiriwyd at y manylion allweddol gan nodi bod y Cod, ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus yn benodol, yn disodli Codi Ymarfer 14 (Llywodraethau Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus). Eglurwyd bod nifer o fodiwlau newydd yn y Cod o gymharu â Chod Ymarfer 14 a bod angen sicrhau cydymffurfiaeth.

I helpu gyda'r gwaith, amlygwyd bod Hymans Robertson wedi datblygu model cydymffurfio i gefnogi a chynorthwyo CPLlL i asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y Cod Cyffredinol newydd. Bydd hyn yn cynhyrchu gwybodaeth awtomatig ar gyfer adrodd yn barhaus i Bwyllgorau a Byrddau Pensiwn Lleol - bydd hefyd yn cefnogi cronfeydd i ddatblygu cynllun gweithredu i feysydd sydd angen sylw pellach.

Amlygwyd y bydd cwblhau'r gwaith yn debygol o gymryd amser ac adnoddau a'r bwriad yn y tymor byr oedd gweithredu mewn camau. Bydd cynnydd ar y gwaith yn cael ei adrodd i'r Bwrdd yn y dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Croesawu bod Hymans yn cefnogi'r gwaith
- Cytuno bod angen cyflwyno diweddariadau ar y gwaith

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os oedd amserlen wedi ei osod i gwblhau'r gwaith, nododd y Rheolwr Pensiynau nad oedd amserlen ar gyfer y gwaith gan fod angen clustnodi amser i ddehongli gofynion y gwaith. Nodwyd hefyd nad oedd son am derfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith – y gobaith yw cael pethau mewn lle cyn gynted a bod modd. Ategwyd nad oedd gwahaniaethau mawr i'r Cynllun - bod mwy o waith mewn cysoni disgrifiadau a thermau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 9. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA

Cyflwynwyd adroddiad (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Amlygwyd bod yr adroddiad wedi ei ysgrifennu yn unol â gosodiad adroddiad 2023 gan gymryd i ystyriaeth y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

Y bwriad yw cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Rheolwr Buddsoddi erbyn 31/07/2024 i'w gynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa ac fel rhan o gyfarfod blynyddol y Gronfa Tachwedd 2024.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch yn fawr i'r Cyng. Stephen Churchman, Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau am ei gefnogaeth a'i ffyddlondeb i'r Bwrdd Pensiwn dros ei gyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Mewn ymateb, diolchodd y Cyng. Stephen Churchman am waith gwerthfawr y Bwrdd a'u cefnogaeth barhaus i'r Pwyllgor a'r Gronfa Bensiwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:50pm